Cynllun **Gwirfoddolwyr**
**Volunteer** Scheme



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau

# Llawlyfr Gwirfoddolwr

**Gwasanaeth Tân ac Achub** De Cymru

South Wales **Fire and Rescue Service**

# Cynnwys



Cefndir Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Trosolwg Cynllun Gwirfoddoli

Buddion Gwirfoddoli

Cefnogaeth a Hyfforddiant

Manylion Ychwanegol

Siarter y Gwirfoddolwr

Datblygwyd y llawlyfr hwn i sicrhau y cewch brofiad gwobrwyol a dymunol yn ystod eich amser fel gwirfoddolwr â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi ein gwirfoddolwyr a bydd y llawlyfr hwn yn eich helpu i gyrchu'r gefnogaeth a ddarperir gennym. Bwriedir i'r llyfryn hwn fod yn ganllaw ac mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys manylion cysywllt a gwybodaeth am y polisïau neu'r gweithdrefnau a all eich effeithio chi. Gobeithiwn fydd e'n eich helpu chi i gael y gorau o wirfoddoli gyda'r Gwasanaeth.

---

Wedi i chi gwblhau eich ffurflen gais a fyddech gystal â'i e-bostio at:

gwirfoddolwr@decymru-tan.gov.uk
01443 232087

---

neu ei bostio at y cyfeiriad canlynol:

**Rheolwr Ieuenctid a Gwirfoddolwyr**
Adran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant
RhCT
CF72 8LX

# Cefndir Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Yr awdurdodau unedol a wasanaethir gan Wasanaeth Tân & Achub De Cymru (GTADC) yw:

Pen-y-bont ar Ogwr
Blaenau Gwent
Caerdydd
Caerffili
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Torfaen
Bro Morgannwg

**Ein Gweledigaeth**

**I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau ris**

Mae ein datganiad gweledigaeth yn disgrifio dyfodol delfrydol ac yn uno GTADC ynghylch pwrpas cyffredin.

**Ein Cenhadaeth**

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth wrth:

Wasanaethu anghenion ein Cymunedau
Weithio ag eraill
Wynebu heriau wrth arloesi a gwella
Leihau Risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
Lwyddo i wneud De Cymru'n Ddiogelach

Mae ein datganiad cenhadaeth yn disgrifio pwrpas holl cynhwysfawr GTADC; beth ydyn ni'n gwneud, ar ran pwy ydyn ni'n ei wneud. A sut a pham rydym yn ei wneud. Mae hyn hefyd yn gosod ffiniau ein gweithgarwch cyfredol.

## Ein Gwerthoedd

Diffinia ein **GWERTHOEDD** yr hyn yr ydym yn credu ynddynt — ein rheolau craidd ydynt. Unwaith y'u diffinnir, dylai'r gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni gael eu hadlewyrchu ym mhopeth y gwnawn.

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gyfres o werthoedd sy'n disgrifio'r modd y byddwn yn gweithredu fel sefydliad. Pryd bynnag y byddwch yn dod i gysylltiad â GTADC, fel aelod o'r cyhoedd, partner, busnes neu aelod o staff, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn fythol amlwg.

**Gofalus –** Byddwn yn ofalus a thosturiol, gan arddangos consyrn ac empathi dros eraill.

**Ymroddgar -** Rydym yn ymroddgar i'r cymunedau lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Rydym yn ymroddedig i achub bywydau a gweithio mewn partneriaeth fel rhan annatod o'n cymunedau.

**Disgybledig –** Rydym yn glir ynghylch ein rolau ac yn gweithredu o fewn lefelau cymeradwy o ran awdurdod, o fewn awyrgylch ddisgybledig. Ystyriwn taw hunan ddisgyblaeth yw ffurf uchaf disgyblaeth.

**Deinamig -** Byddwn yn cofleidio, ac yn gallu newid neu gael ein newid. Rydym yn cyfranogi mewn gweithgareddau grymus, gydag egni a brwdfrydedd, gan gyflawni effeithiolrwydd mawr.

**Proffesiynol -** Byddwn yn arddangos proffesiynoldeb ym mhopeth y byddwn yn ymgymryd ag e. Golyga hyn byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau mewn modd cymwys a dibynadwy, gan arddangos arbenigedd ym mhopeth y gwnawn ac yn sicrhau ein bod yn arddangos ymroddiad i'r safonau uchel a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar bob adeg.

**Cydnerth -** Byddwn yn rhagdybio risg, yn lleihau effaith, ac yn adlamu'n ôl wrth arddangos cymhwysedd, esblygiad a chynnydd yn wyneb newid cythryblus. Byddwn yn gwrthsefyll ac yn adfer rhag amodau anodd yn gyflym. Parchus - Byddwn yn parchu ein gilydd a'r cymunedau yr ydym yn gwasanaethu. Mae hyn yn golygu trin pobl yn deg, cydnabod gwahaniaethau ac adnabod cyfraniad ein cydweithwyr a'n cymunedau. Dibynadwy - Gellir dibynnu arnom i fod yn onest a geirwir. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu athroniaeth graidd GTADC

# Trosolwg Cynllun Gwirfoddoli



Mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo gweledigaeth o amgylchedd lle anogir a chefnogir gwirfoddoli i ddyrchafu'r Gwasanaeth a gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau.

## Diben Cynllun Gwirfoddoli

Sefydlwyd y cynllun i ddyrchafu darpariaeth gwasanaethau ac adeiladu a datblygu perthnasau yn y cymunedau lle'r ydym yn byw a gweithio.

Nid yn unig mae'r cynllun yn darparu'r cyfle i wneud cyfraniad gwerthfawr i ddiogelwch eich cymuned, ond hefyd darpara'r Gwasanaeth â sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol.

Croesawir gwirfoddolwyr o bob cefndir i ymgymryd ag amrywiaeth o rolau i fynd i'r afael ag anghenion y Gwasanaeth a'r Gymuned.

Wrth i'r cynllun barhau, bydd y rolau'n tyfu'n fwy amrywiol.

## Hawliau'r Gwirfoddolwr

Dylai gwirfoddolwyr:
- gael eu trin yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu
- os nas dewiswyd ar gyfer rôl, dylid derbyn eglurhad pam
- gael person enwebedig ar gyfer cefnogaeth, goruchwyliaeth ac adborth
- wybod sut i adrodd unrhyw broblemau neu bryderon
- gael cwmpasiad yswiriant priodol ar gyfer y rolau a gyflawnir
- dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol
- gael eu had-dalu am dreuliau allan o boced
- dderbyn adolygiad o'u perfformiad ynghyd â darpariaeth adborth
- dim ond cael eu gofyn i ymgymryd â thasgau sy'n briodol ac sy'n gyrchadwy
- gael eu darparu ag amgylchedd diogel i wirfoddoli ynddo

## Cyfrifoldebau'r Gwirfoddolwr

Gofynnir i wirfoddolwyr:
- berfformio eich rôl wirfoddol hyd eithaf eich gallu
- weithredu o fewn ein canllawiau, ein gweithdrefnau a'n safonau
- wisgo gwisg safonol yn unol â'r Polisi Gwisg
- roi'r ymrwymiad rydych chi'n gwybod sydd fwyaf addas i'ch argaeledd
- gyrraedd fel y cytunwyd ac i fod yn brydlon
- fod yn ddibynadwy
- adrodd unrhyw bryderon neu broblemau
- barchu cyfrinachedd
- fod yn barchus â phobl rydych chi'n ymgysylltu â hwy
- drin pawb yn deg a chyda pharch
- beidio â defnyddio iaith neu ymddygiad sarhaus neu ymosodol
- fynychu cyfarfodydd hyfforddi a pherfformiad rheolaidd
- os ydych chi'n hawlio buddion, i fod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau i hysbysu'r Ganolfan Byd Gwaith (Job Centre Plus) ynghylch unrhyw ymrwymiad â'r Gwasanaeth.

Gofynnir i wirfoddolwyr arwyddo cytundeb gwirfoddoli ar gychwyn.

# Buddion Gwirfoddoli



Mae nifer o fuddion i ddod yn wirfoddolwr â GTADC. Gweler rhai ohonynt fel a ganlyn:

- Dod yn rhan o dîm a chwrdd â phobl newydd
- Cyfrannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i helpu eraill
- Dysgu sgiliau newydd - Dod yn rhan o'ch cymuned leol a'u helpu
- Eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, eich cymuned leol a'ch cyd wirfoddolwyr
- Mynediad i'r Rhaglen Golau Glas (a gydlynwyd gan yr elusen iechyd meddwl MIND)
- Mynediad i Elusen yr Ymladdwyr Tân (yn amodol ar feini prawf cymhwysol)

Hefyd, gall eich helpu i ennill profiad mewn maes unigryw a bydd yn ychwanegiad gwerthfawr i'ch Ffurflen Curriculum Vitae (CV)

Efallai byddwch chi'n datblygu nifer o sgiliau fel:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risgiau
- Y gallu i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i gynorthwyo wrth leihau'r risg hwnnw
- Datblygu hyder wrth i'ch rôl gynyddu
- Dyrchafu eich sgiliau cyfathrebu wrth ddelio ag unigolion gwahanol

# Cefnogaeth a Hyfforddiant



Rydym yn gwerthfawrogi pawb sy'n dewis gwirfoddoli gyda GTADC, a byddwn yn gwneud y gorau medrwn i wneud eich profiad yn wobrwyol a phleserus. Bydd pob gwirfoddolwr yn derbyn cyfnod anwytho llawn a hyfforddiant i gefnogi'r rôl y gwirfoddolwyd amdani.

Wedi cwblhau'r cyfnod anwytho a'r hyfforddiant, a dim ond os byddwch chi'n teimlo'n gyfforddus, yna byddwch yn dechrau yn eich rôl wirfoddoli.

Efallai y cewch gynnig neu byddwch chi'n gofyn am hyfforddiant ychwanegol ar unrhyw adeg.

**Cyfarfodydd Adolygu**

Wedi i chi gyflawni eich rôl wirfoddol am gyfnod byr o amser, bydd GTADC yn cynnal cyfarfod adolygu cychwynnol. Mae hwn i sicrhau eich bod yn gwbl hapus o fewn eich rôl ac i ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol neu faterion a ddarganfuwyd gennych wedi i chi ddechrau. Cynhelir yr adolygiad mewn man ac ar adeg gydfuddiannol a bydd modd i chi drafod sut rydych chi'n teimlo fod pethau'n parhau o fewn eich rôl wirfoddol. Mae'n gyfle i wirfoddolwyr godi materion ac i chi siarad yn adeiladol ynghylch eich ymrwymiad â GTADC.

Yn ddilynol, byddwch chi'n derbyn cefnogaeth barhaus gan eich cyswllt GTADC ynghyd â chyfarfod adolygu rheolaidd. Fel rhan o'ch datblygiad parhaus ac i gynorthwyo â'r cyfarfodydd adolygu, gwnewch nodyn o sut wnaethoch ganfod pob rôl neu dasg a gynhaliwyd gennych, beth a wnaethoch ac os oedd unrhyw faterion yr hoffech eu trafod.

# Manylion Ychwanegol



## Cyfrinachedd

Ar adegau, gall gwirfoddolwyr gael mynediad i wybodaeth gyfrinachol neu sensitif ac mae'n hanfodol fod y wybodaeth hon yn parhau'n gyfrinachol ac ni rennir hi.

Golyga cyfrinachedd na ddylid trafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol sy'n ymwneud ag unigolion neu'r Gwasanaeth. Os torrir cyfrinachedd, efallai bydd y drefn wirfoddoli'n cael ei derfynu. Pe bai gennych unrhyw bryderon ynghylch rhywbeth a glywyd neu a welwyd gennych, dylid trafod hwn â'r Rheolwr Gwirfoddoli.

## Treuliau

Bydd y Gwasanaeth yn ad-dalu treuliau cludiant o'ch cartref ac iddo o'ch man gwirfoddoli. Bydd angen cytuno ar unrhyw dreuliau eraill a wariwyd yn ystod eich gwaith gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth ymlaen llaw.
Rhaid i wirfoddolwyr gadw cofnodion cywir o filltiroedd a darparu derbyniadau lle bo'n ofynnol a'u cyflwyno mewn modd amserol. Telir pob traul yn uniongyrchol i'r cyfrif banc fel y nodwyd ar gychwyn eich rôl wirfoddoli. Telir treuliau teithio ar Raddfa gyfredol Y Cydgyngor Prydles Ceir.

- 46.9 ceiniog y filltir am gerbydau o 451cc i 999cc
- 52.2 ceiniog y filltir am gerbydau o 1000cc i 1199cc
- 65 ceiniog y filltir am gerbydau o 1200cc i 1450cc

## Yswiriant

Cwmpasir pob gwirfoddolwr o dan delerau polisi yswiriant GTADC wrth ymgymryd â'u rôl.
Mae'n ofynnol i unrhyw wirfoddolwr sy'n gyrru gan ddefnyddio'u cerbydau eu hunain i hysbysu eu hyswirwyr o'u gweithgareddau gwirfoddol.

## Iechyd a Diogelwch

Gosoda'r Gwasanaeth bwysigrwydd mawr ar iechyd a diogelwch ei wirfoddolwyr ac ystyria iechyd a diogelwch i fod yn swyddogaeth rheoli sydd gyfwerth ag unrhyw gyfrifoldeb arall.

Mynegir manylion y trefniadau sefydliadol ynghylch iechyd a diogelwch o fewn dogfen fframwaith a chynhwysa bolisïau atodol, gweithdrefnau a chanllawiau ymarferol. Adnabyddir y dogfennau hyn fel Nodiadau Canllaw Iechyd a Diogelwch (NCID). Mae'r NCID hyn yn nodi'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r polisi diogelwch ar draws y Gwasanaeth.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dymunwn sicrhau ein bod yn darparu cydraddoldeb cyfle ym mhob agwedd o wirfoddoli. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn deg, heb gael eu gwahaniaethu.

Mae GTADC yn ymroddedig wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn gwrthwynebu'n gryf pob math o wahaniaethu annheg, gan gynnwys ar sail hil, crefydd, rhyw, ailbennu rhywedd, rhywedd, statws priodasol, oed neu anabledd.

Am ragor o wybodaeth gweler Gweithdrefn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth GTADC GS - 02.005

## Diogelu

Mae diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb ac mae gan bob gwirfoddolwr sydd, yn ystod cwrs eu rôl wirfoddol, â chyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â phlant ac oedolion bregus neu sydd â mynediad at wybodaeth amdanynt, gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion bregus.

Mae dyletswydd ar sefydliadau i wneud trefniadau priodol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion bregus. Hefyd, mae canllawiau'r llywodraeth yn glir mai cyfrifoldeb ar y cyd ydyw, ac y dibynna ar gydweithio effeithiol rhwng asiantaethau ac arbenigwyr sydd â gwahanol rolau ac arbenigedd.

*Beth yw diogelu?*

Diffiniodd y Llywodraeth y term 'diogelu' fel:

"Y broses o ddiogelu plant ac oedolion bregus bychan rhag camdriniaeth neu esgeulustod, atal amharu eu hiechyd a'u datblygiad, a sicrhau eu bod yn byw mewn amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol sy'n caniatáu iddynt gael y cyfleoedd bywyd gorau."

*Ein hymrwymiad i ddiogelu*

Mae GTADC wedi ymroi i amddiffyn a chefnogi pobl fregus gan gynnwys plant, pobl ifanc neu oedolion.

Mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn adnabod ac yn ymateb i'r risg rhag tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a senarios eraill sy'n peryglu bywyd ond ar hyd ystod ehangach o themâu sy'n gysylltiedig â'r rhai hynny a fydd efallai mewn perygl rhag niwed.

Cydnabu'r Gwasanaeth y rôl sylweddol y gall chwarae mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a gweithia gyda byrddau diogelu oedolion a phlant De Cymru.

## Diweddu'r rôl

Os a phryd byddwch chi'n penderfynu diweddu eich rôl wirfoddol o fewn y Gwasanaeth, gobeithiwn byddwch chi'n cymryd rhan mewn cyfweliad ymadael anffurfiol fel y cawn gasglu ychydig o adborth ynghylch sut oeddech chi'n teimlo am eich amser â ni.

Ar bob adeg, rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau fydd gennych ar sut y gallwn wella'r cynllun gwirfoddoli.

# Siarter Gwirfoddolwyr
# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Ymgymerir â gwirfoddoli yn ddigyfraniad ac nid ar gyfer budd ariannol; mae'n cynnwys ymrwymiad amser ac egni er lles cymdeithas a'r gymuned.

Defnyddir gwirfoddolwyr i berfformio rolau sydd naill ai:

- Yn dyrchafu ein gwasanaethau wrth ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau a berfformiwyd eisoes, neu
- Yn rhyddhau amser i staff i'w caniatáu i berfformio gwaith a all fod yn fwy cynhyrchiol a lle bydd eu hyfforddiant, sgiliau ac arbenigedd yn hanfodol

Ni ddefnyddir gwirfoddolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i ddisodli staff neu effeithio eu cyflogau ac amodau gwasanaethu.

Diffinnir, adolygir a chymeradwyir y rolau'n glir cyn bydd unrhyw broses recriwtio'n cael ei gynnal i alluogi gwirfoddolwyr sydd â'r sgiliau priodol i gael eu paru. Wrth awgrymu rôl gwirfoddoli, cymerir y canlynol i ystyriaeth:

- Dylai rolau ddyrchafu, ategu a chefnogi rolau staff cyflogedig ac ychwanegu gwerth iddynt
- Dylai rolau wella a dyrchafu'r gwasanaeth a dderbynnir gan y cyhoedd
- Dylai fod cyswllt rhwng rôl y gwirfoddolwr a'r amcanion a osodwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, fel bydd gan y rôl ystyr a phwrpas

Caiff disgrifiad rôl ei gytuno a'i gynhyrchu ar gyfer pob safle gwirfoddoli a darperir copi i'r gwirfoddolwr pan fyddant yn cychwyn. Hefyd, darperir copi i'r adran berthnasol i sicrhau fod y gwirfoddolwr a'r staff priodol ill dau yn ymwybodol o'r ffiniau lle maent yn gweithredu.

Bydd GTADC hefyd yn bwriadu adeiladu perthnasau cryfion â sefydliadau'r sector gwirfoddol o fewn ardal ein Gwasanaeth a. lle bo'n bosib, ffurfioli cyfleoedd partner.



Huw Jakeway
Prif Swyddog Tân